**Julie James AC / AM**
**Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**
**Leader of the House and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/01041/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

Government.Committee.Business@gov.wales

30 Tachwedd 2018

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Mai yn dilyn ystyried P-05-793 ynghylch darparu gwasanaethau band eang cyflym iawn i bentref Llangenau.

Gallaf gadarnhau bod Powys yn syrthio o fewn Lot 2, ac mae'r ymarfer tendr yn parhau. Rwy'n anelu at gyhoeddi'r cynigydd llwyddiannus cyn gynted ag y bydd y broses yn caniatáu imi wneud hynny.

Mae fy natganiad ynghylch yr adeilad cyntaf wedi ei gysylltu erbyn diwedd 2019 yn cyfeirio at y rhai hynny sydd wedi'u cynnwys yn Lotiau 1 a 3, fodd bynnag, byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod Lot 2 yn gweithio i amserlen debyg, ond wedi hynny ni allaf gadarnhau unrhyw fanylion tan dewis a cyhoeddi y partner cyflenwi.

Unwaith y bydd y cytundeb grant wedi'i wneud, bydd fy swyddogion yn gweithio gyda'r partner cyflawni llwyddiannus i nodi'r union adeilad fydd yn elwa o'r cynllun.Mae presenoldeb ar-lein newydd yn cael ei baratoi ar gyfer cyfres o ymyraethau sydd eu hangen i gyflwyno band eang cyflymach ledled Cymru. Bydd etholwyr yn gallu edrych ar-lein i weld a yw eu hadeiladau i gael eu cwblhau o dan y prosiect neu a fyddai ymyrraeth arall yn fwy addas. Bydd y cyfleuster hwn ar gael dros y misoedd nesaf.

Mae cymorth ariannol ar gael o hyd i gartrefi a busnesau er mwyn iddynt gael mynediad at gysylltiad band eang cyflym iawn drwy Gynllun Allwedd Band Eang Cymru. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y ddau gynllun drwy ffonio 0300 025 8887 neu drwy anfon e-bost i bandeang@llyw.cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gallai cymorth hefyd fod ar gael drwy Gynllun Talebau Band Eang Llywodraeth y DU. Gall talebau Gigabit gael eu defnyddio gan fusnesau bach a'r cymunedau lleol o'u hamgylch a all gyfrannu at gost gosod cyswllt sy'n addas i gigabit. Gall busnesau hawlio hyd at £2,500 tuag at gost cyswllt, un ai'n unigol neu fel rhan o brosiect grŵp. Gall trigolion elwa ar y cynllun, gan dderbyn taleb gwerth £500 fel rhan o brosiect grwp.Cewch ragor o wybodaeth yma [https://gigabitvoucher.culture.gov.uk/](https://gigabitvoucher.culture.gov.uk/)

Yn gywir



**Julie James AC / AM**
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip